
# DINESYDD

**PAPUR CYMRAEG CAERDYDD A'R CYLCH**

RHIF 136

MEHEFIN 1987


# MARCIAU LLAWN !



Ar nos Sadwrn, Mai 2, yn y Lakeside Restaurant, Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru, daeth dros 300 ohonom ynghyd i ddathlu penblwydd Ken yn bum mlwydd oed. Pum mlynedd yn ôl cafodd Ken drawsblaniad calon yn Ysbyty Harefield, ac fel mae y rhan fwyaf o'r darllenwyr yn gwybod bu'r driniaeth yn wyrthiol o lwyddiannus, ac ers hynny mae wedi mynd yn ôl i'w waith fel prifathro Ysgol Bryn-deri ac yn byw bywyd prysur a llawn iawn. Mae pum mlynedd yn garreg filltir i'r personau a gafodd drawsblaniad a dyna pam y daeth llawer iawn ohonynt gyda'u teuluoedd i Gaerdydd i ddathlu gyda ni.

Rheswm arall am gynnal y noson oedd codi arian ar gyfer Adran Clefyd y Galon Ysbyty'r Heath ac i Uned newydd 'Give a Child a Chance' sydd yn cael ei chodi ar hyn o bryd i helpu plant sydd â dolur y galon yn Hare-field.

Cefais fy synnu gan garedig-rwydd pobl Caerdydd yn unig-olion, yn bobl busnes a masnach gan i mi gael y rhan fwyaf o'r bwyd a'r gwobrwyon ar gyfer y raffl yn rhad ac am ddim. Cafwyd erthygl am Ken yn y Western Mail a'r Echo, a chawsom lawer iawn o arian ar ôl i bobl eu darllen. Ar hyn o bryd mae gennym yn agos i £3,500 ac y mae'r arian yn para i ddod i mewn.

Hoffem ddiolch yn fawr iawn i'r criw bach fu'n help ac yn gefn i mi yn yr ymdrech - pobl fel Don Baxter, Bob Roberts, Rhys Morgan, Ifor Phillips, Roly Williams; i bawb fu'n ddiwyd yn gwertnu tocynnau ar gyfer y noson, ac i Mrs. Sara Barr am werthu 400 o amlenni tocynnau raffl. Diolch hefyd i Mrs. Ann Thomas am y gacen benblwydd hyfryd; Mrs. Alma Carter am y blodau; Mr. David Harries a Husband Brothers am baratoi'r bwyd; Mr. Higgins a'i Staff o Ysbyty'r Brifysgol am osod y byrddau a'r ystafell mor ddeniadol. I Lew Harries Sound am y gerddoriaeth ac i bawb am eu cefnogaeth i wneud y noson yn un gofiadwy iawn i ni fel teulu.

Cafodd Ken ei syfrdannu pan gafodd ei gyflwyno a beic ymarfer Tunturi yn rhodd oddi wrth Edwards Sports, Casnewydd.

Ar y dydd Iau canlynol aeth Ken i Ysbyty Harefield am ei M.O.T. blynyddol (Minding One's Ticker) os dywed y bechgyn. Cyn i ni adael daeth yr Athro Magdi Yacoub i'w weld a dweud bod pob peth yn "super" Felly, fe gawn barti penblwydd eto mewn pum mlynedd.

Anne Innes

YR ŴYL



Sara Ogwen, disgybl yn Ysgol Glantaf, a fu'n fuddugol yng nghystadleuaeth y Gadair,

(Gweler tudalen 8)



Esther Watkins, disgybl 8 oed o Ysgol y Wern a fu'n fuddugol yn y gystadleuaeth Unawd Llinynnol dan 12 oed. Hi oedd yr ieuengaf yn y gystadleuaeth.

# LLYTHYRAU

50, Oakwood Avenue,
Cyncoed,
CAERDYDD.

Annwyl Syr,

Fel ymgeisydd Plaid Cymru yn Etholaeth Gogledd Caerdydd, roedd hi'n syndod ac yn siom imi weld tudalen flaen rhifyn mis Mai o'r Dinesydd yn cael ei defnyddio i anog eich darllenwyr i gefnogi pleidiau Prydeinig yn yr Etholiad Cyffredinol.

Nid oes gwerth mewn tacteg, faint mor effeithiol y bo, os nad ydyw'r dacteg honno yn ein harwain yn nes at gyrraedd amcanion strategaeth synhwyrol. Cyn rhuthro i gefnogi ymgeiswyr y Blaid Lafur neu'r Cynghrair, onid doeth ydyw gofyn beth fyddai effaith tymor hir rhoi hwb i'r pleidiau hynny ar draul yr unig blaid Gymraeg, sef Plaid Cymru.

Hawdd ydyw anghofio mai twf Plaid Cymru sydd wedi sicrhau yr elfennau hynny sydd mor bwysig i Gymry Cymraeg y Brifddinas. A fyddai gennym yr hawl i ddefnyddio y Gymraeg yn swyddogol, i ddanfon ein plant i ysgolion Cymraeg ac i dderbyn gwasanaeth teledu Cymraeg oni bai am ofn llywodraethau Prydeinig o bob lliw gwleidyddol tuag at gryfder cenedlaetholdeb gwleidyddol?

Pa mor hir y gellid dibynnu ar gadw'r hawliau hynny, heb sôn am eu datblygu, petai etholwyr Caerdydd yn troi eu cefnau ar Blaid Cymru yn gyfan gwbl?

Yr unig dacteg sydd yn gwneud synnwyr er mwyn cryfhau hawliau cenedlaethol y Cymry ydyw chwyddo pleidlais Plaid Cymru.

Ni fedr heb wadu mai trychineb i Gymru fyddai pum mlynedd arall o Thatcheraeth, ond tybed beth fyddai tynged Cymru o dan llywodraeth Kinnock, prif elyn datganoli yn 1979, heb bleidlais gref i Blaid Cymru i'w hatgoffa mai Cenedl ydyw Cymru ac nid praidd o ddefaid Llafur ffyddlon.

Yr eiddoch yn gywir,

Eluned Bush.
Ymgeisydd Seneddol i Blaid Cymru yn Etholaeth Gogledd Caerdydd.

Coed Eryl,
Craig-y-Don,
LLANDUDNO.

Annwyl Olygydd,

Carwn dynnu sylw eich darllenwyr at "WIGWAM", Gŵyl Gristnogol a gynhelir ar fferm Tŷ Du, Y Parc, ger Y Bala rhwng Gorffennaf 17eg a 20fed 1987. Hon yw'r drydedd flwyddyn i'r Ŵyl gael ei chynnal ac mae'n raddol ennill ei thir fel un o'r prif weithgarwch Cristnogol Cymraeg heddiw. Ei phrif nod yw rhoi cyfle i Gristnogion o bob enwad gael dysgu, dathlu a mwynhau eu ffydd. Anelir llawer o'r gweithgareddau at bobl ifanc ond gallwch fod yn sicr bod rhywbeth yno at ddant pawb yn y teulu. Bydd y gweithgareddau yn dechrau ar y nos Wener gyda noson "Croeso i Wigwam", Noson Lawen a thwmpas dawns. Cynhelir nifer o weithgareddau amrywiol yn ystod dydd Sadwrn gan gynnwys seminarau, gweithdai, trafodaethau a chyfle i ymlacio a chymdeithasu. Yn ystod y noson cynhelir cyngerdd roc Gristnogol. Uchafbwynt y penwythnos fydd addoliad y bore Sul ac yna cynhelir "Coelcerdd" a fideos gyda'r nos. Eleni bydd yr Ŵyl yn cael ei hymestyn hyd at fore Llun er mwyn rhoi mwy o gyfle i bobl ddod i adnabod ei gilydd ac i fwynhau'r awyrgylch braf. Darperir maes pebyll a charafanau ar gyfer gwersylla, toiledau, dŵr, byrbrydau, meithrinfa a stondinau amrywiol ar dir y fferm. Felly, dewch i "WIGWAM" eleni a dewch a chriw hefo chi. Os am fwy o fanylion cysylltwch ag:

Emlyn a Lowri Dole,
Neuadd Carmel,
Heol Camel,
Pontlliw.
Gorllewin Morgannwg.

NEU

Susan Hughes,
30, Rhes Tan-y-Graig,
Glanadda,
BANGOR.
Gwynedd.

Edrychwn ymlaen at eich gweld yno ac am benwythnos bendithiol a chofiadwy.

Yn gywir,

Delyth Wyn Lloyd.

---

Annwyl Gyd-Ddarllenwyr,

Bydd Cronfa Achub y Plant yn agor siop yn 23, Ffordd y Castell ddydd Mawrth, Mai'r 19eg - yr un gyntaf yn Ne Cymru! Mae arnom angen dillad da ail law a phob math o drugareddau ddaw ag arian i'r Gronfa. Mae angen hefyd am wirfoddolwyr i roi help llaw yn y siop, rydym yn brin iawn o weithwyr sy'n siarad Cymraeg.

A fuasech garediced â chysylltu â mi, gyda'r nos os yn bosib. Ffôn: 627355.

Yn gywir,

Rhiannon Edwards.

Profiad diddorol eleni oedd mynd ar long newydd sbon a adeiladwyd yn Kiel yn yr Almaen - llong foethus yr Astor gyda lle ynddi yn gyffyrddus i 600 o deithwyr. Pan aethom ni ar fwrdd y llong yn Genoa ar gyfer ein taith igam ogam i Israel ac yn ôl i Fenis, fe'n cawsom ein hunain yng nghanol Almaenwyr, Ffrancod, Sbaenwyr a Swedwyr cyfeillgar iawn. Roedd stiwardiaid y cabanai i gyd yn dod o wlad Mauritius, felly syndod a boddhad oedd cael cyfle i siarad Cymraeg un bore - wedi mynd i lawr i grombil y llong i gael trin fy ngwallt. Canys yno yng nghanol y twr hwn o ieithoedd yr oedd Cymraes fach brydferth ddu ei gwallt a glas ei llygaid yn gwenu arnaf, a Chymraes o Rhiwbina hefyd. Ei henw oedd Angela Hazell. Bu'n ddisgybl gyda Mr. Tom Evans ym Mryntâf ac yna yn Ysgol Llanhari. Erbyn hyn mae'r teulu yn byw yng ngwlad Belg ac ni chlywodd Angela neb yn siarad Cymraeg ers saith mlynedd - ond fe'i clywodd am bythefnos adeg y Pasg ar y ffordd i Gaersalem.

Joan Rees.
36, Heol-y-Coed. Rhiwbina.

---

# MERCHED Y WAWR

Merched y Wawr - Cangen Caerdydd

Daeth tymor hynod o lwyddianus, o dan Lywyddiaeth Mrs. Rebecca Powell, i ben nos Lun Mai 11eg, pan gawsom noson gyffredinol i'r aelodau - Dod a dweud; ac roedd y dweud yn ddiddorol dros ben.

Yn ogystal â chyfraniadau gan nifer o'n haelodau arferol, cawsom glywed gan rai o'r dysgwyr sydd wedi dechrau ymuno â ni, ac roedd yn syndod ac yn bleser i ni eu bod yn medru ein hannerch mor hyderus a chanddynt eirfa mor eang.

Bu cyfarfodydd y gaeaf yn amrywiol eu naws. Cawsom siaradwyr, llawer ohonynt yn wŷr, i'n hannerch ar destunau diddorol ac addysgiadol; ac roedd hefyd nosweithiau o ddiddanwch llafar ac ar gân.

Byddwn yn ail ddechrau ein cyfarfodydd rheolaidd (yr ail nos Lun o bob mis) ym mis Medi, yn Festri Capel Minny Street am 7.30 o'r gloch, a Mrs. Eirwen Davies fydd ein Llywydd am 1987-1988.

Ond, cyn hynny, beth am ddod ar ein gwibdaith flynyddol, nos Lun, Mehefin 8fed. Sir Fynwy yw ein cyrchfan a Dr. Gwynfor Jones fydd yn ein harwain.

Bydd y bws yn gadael Capel Minny Street am 6 o'r gloch. Croeso i'r rhai sydd heb roi eu henwau eto - fe fydd lle ar y bws mae'n siwr neu cysylltwch â Mrs. Rosemary Davies ar 626495.

Heulwen Thomas.

---

Dylid anfon unrhyw gyfraniadau at rifyn Gorffennaf/Awst at:
Y Dinesydd,
2, Crystal Glen,
Y Waun,
CAERDYDD. CF4 5QH
erbyn Mehefin 16ain

Diolch am gymorth Cymdeithas Celfyddydau De Ddwyrain Cymru a'r Swyddfa Gymreig wrth baratoi'r Dinesydd.

# GŴYL IFAN



Eleni mae Cwmni Dawns Werin Canolfan Caerdydd yn dechrau ar ail ddegawd eu gŵyl canol haf, 'Gŵyl Ifan', gan ail atgyfodi hen draddodiad sy'n mynd yn ôl ganrifoedd.

Bwriedir codi y 'Fedwen Haf' yn yr Amgueddfa Werin yn Sain Ffagan fel rhan o'r dathliadau eleni. Codwyd y 'Fedwen Haf' yn draddodiadol ar noswyl 'Canol Haf'. Ceir disgrifiad mewn llyfr gan Trefor Owen, cyn-guriadur yr Amgueddfa Werin, o'r goeden gan y saer lleol, cyn i ferched y fro ddechrau addurno y polyn. Gobaith y bardd dall cyfoes, William Robert o Lancarfan, wrth ddisgrifio'r ddefod yn ei gerdd 'Taplas Gwainfo', oedd y byddai y traddodiad o godi'r 'Fedwen Haf' yn parhau pob 'Gŵyl Ifan'. Diolch i'r Cwmni Dawns Werin fe fydd hyn yn digwydd eleni.

Cyfeirir hefyd at stori o'r 'Fedwen Haf' yn cael ei lladrata o bentref Sain Ffagan tua chanol y ddeunawfed ganrif. Yn ôl yr hanes bu'n rhaid i bentrefwyr Sain Ffagan warchod eu polyn drwy'r nos rhag y bygythiad o ladrad gan bentrefwyr cyfagos. Gobeithio na fydd rhaid i'r Cwmni Dawns Werin wneud yr un peth!

Roedd traddodiad o godi'r 'Fedwen Haf' yn gryf iawn ym Morgannwg, ond fe geir tystiolaeth o'r un traddodiad mewn ardaloedd eraill o Gymru hefyd. Cyfeirir at ddathliadau canol haf mewn un ardal a fyddai'n parhau, os byddai'r tywydd yn ffafriol, am naw diwrnod! 'Dyw trefnwyr 'Gŵyl Ifan' eleni ddim mor uchelgeisiol a hynny - ond fe geir penwythnos llawn, serch hynny!

Fe gynhelir 'Gŵyl Ifan' eleni ar benwythnos 19-21 o Fehefin. Ar ôl bod llynedd yng ngwesty mwya newydd Caerdydd, yr 'Holiday Inn', eleni ry'n ni'n troi at westy hyna'r ddinas, sef 'Gwesty'r Royal'.

Yno y cynhelir y Twmpath agoriadol ar y nos Wener, ac ar ôl gorymdaith ar y bore Sadwrn, fe geir dawnsio yn Neuadd Dewi Sant ynghyd â mannau eraill yng nghanol y ddinas. Yn y prynhawn fe geir dawnsio (a chodi'r Pawl Haf) yn yr Amgueddfa Werin, Sain Ffagan, cyn symud ymlaen am bedwar o'r gloch i Westy'r Dyffryn Ffrwd, Nantgarw.

Ar y nos Sadwrn fe fyddwn yn dychwelyd i Neuadd y Ddinas i gynnal y Taplas, ac unwaith eto fe fydd gweithdai ar y bore Sul yn y Gwesty.

Os am fanylion pellach, neu docynnau i'r gweithgareddau, cysylltwch â Dai James, 50, Prospect Drive, Llandaf, Caerdydd. Ffôn: 563989.


## celtic asset management ltd.

RHEOLWYR BUDDSODDIADAU AC ASEDAU PERSONOL
ARBENIGWYR MEWN CRONFEYDD BUDDSODDI

PORTFFOLIADAU BUDDSODDI DAN REOLAETH
NAILL AI CYFEIRIEDIG NEU GORDDEWISOL

AM FANYLION PELLACH CYSYLLTER Â:
DAFYDD HAMPSON-JONES
CYFARWYDDWR

78 Heol yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF4 3LX
Ffôn: 394021
Delwyr trwyddedig mewn gwarannau.


COLLI CYMORTHDAL CYNGOR Y CELFYDDYDAU

Yn sydyn iawn daeth y newyddion am y bygythiad i ddyfodol Y Faner wrth i Gyngor y Celfyddydau yng Nghymru ddatgan eu bwriad i dorri ar y cymorthdal.

Y mae perygl y bydd cylchgronau eraill yn cael eu cwtogi hefyd ac un nad yw ei ddyfodol yn sicr iawn yw LINK, cylchgrawn sydd yn cael ei gynhyrchu gan Gymdeithas Arlunwyr a Dylinwyr Cymru. Os yw yn wir fod yna fwrlwm o weithgareddau yn y byd celf yng Nghymru heddiw y mae hefyd yn wir fod LINK yn un o'r cynhyrchiadau mwyaf bywiog dadlennol, diwylliedig, sydd yn rhoi mynegiant i ysgrifenwyr ac i artistiaid. Dyma rai enghreifftiau o'r erthyglau sydd wedi ymddangos oddi ar mis Awst y llynedd pryd y paratowyd rhifyn a chlawr arbennig ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol - Portread o Megan Jones; Celfyddyd ac Anghydffurfiaeth Gymreig; Paul Davies ar ei waith; Dada; Swrealaeth Fauviaeth; Atgofion am Reynolds; Symudiad mewn Celfyddyd modern; Datblygiad rhaglen weledol; ac un o'r rhaid disgleiriaf sef Sian Parri yn ysgrifennu am yr Ymwybodaeth Geltaidd. Saesneg yw prif iaith y cylchgrawn, ac y mae yn trafod pynciau celfyddyd yn fyd-eang ond o agwedd a gweledigaeth Gymreig. Clywir am hunaniaeth neu yn hytrach efallai diffyg hunaniaeth Gymreig yn y byd celf, ond dyma un cyfrwng sydd yn trin a thrafod, holi a phrocio.

Polisi y Dr. Ifor Davies, yr arlunydd o Benarth, y Golygydd hyd yn ddiweddar, oedd sicrhau fod yna gyfraniadau yn yr iaith Gymraeg yn y cylchgrawn. Er i hyn olygu peth ymdrech iddo fel Cymro Cymraeg ail iaith, bu yn fodd i roi golau dydd i sawl ysgrif a nodiadau ar bynciau na chafwyd eu trafod cyn hyn yn yr iaith. A chymaint o artistiaid o Loegr yn sefydlu yma ac yn elwa ar gymorth, ond yw hyn yn bwysig?

Wrth gwrs y mae LINK yn costio arian, ond gellir sicrhau gwerth yr arian nid wrth ei fygwth, ond wrth ei hybu a chydweithio.

Dyna ddylai ddigwydd gyda'r Faner - ymgynghori a chynghori ar sut i ddod a'r cylchgrawn i'r safonau mae'r Cyngor am weld os yr ydyn yn anfodlon arno fel y mae. A ninnau a chyn lleied o gyfryngau sy'n rhoi lle i'r Gymraeg, siom yw profi agweddau negyddol tuag at ymdrechion fel rhain.

Seiriol Davies

# Campweithiau yn Cyrraedd Adref

Daeth casgliad o ddarluniau gwychaf Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn ôl adref ar ôl y gylchdaith fwyaf uchelgeisiol a dadleuol erioed a drefnwyd gan yr Amgueddfa. Ar ôl blwyddyn o daith eithriadol o lwyddiannus yn Japan fe arddangosir y lluniau unwaith eto ym Mhrif Adeilad yr Amgueddfa yng Nghaerdydd o Fai 23ain.

Gwelwyd 90 o gampweithiau'r Amgueddfa - 73 o ddarluniau olew; 12 o ddyfrliwiau a 5 cerflun - mewn deg canolfan yn Japan, sef Yokohama, Osaka, Himeji, Hiroshima, Gifu, Fukushima, Tokyo, Miyazaki, Fukuoka a Niigata.

Ymwelodd bron 400,000 o bobl a'r arddangosfa a gwerthwyd 50,000 o'r catalogau a gyhoeddwyd yn arbennig ar gyfer yr amgylchiad.

Ymhlith y gweithiau roedd lluniau gan yr Hen Feistri Claude Lorraine, Cuyp, Canaletto, Gaisborough, Richard Wilson, Turner a Constable. Ond prif ddiddordeb y casgliad, serch hynny, oedd y darluniau gan yr Argraffiadwyr Ffrengig a gyflwynwyd i'r Amgueddfa yn gymunroddion gan y chwiorydd Margaret a Gwendoline Davies o Gregynog yn 1952 a 1963.

Ymhlith y peintiadau mwyaf enwog a welwyd yn Japan oedd La Parisienne gan Renoir a Glaw yn Auvers gan Van Gogh, ynghyd a gweithiau Ffrengig eraill gan Corot, Daumier, Mil Millet, Monet, Manet a Cezanne.

Yn ymddangos yn y rhifyn hwn y mae un o luniau enwog Cezanne, pwnc a ddewisodd mewn gwahanol drefniadau laweroedd o weithiau. Dywedodd rhywun fod afalau Cezanne mor adnabyddus a rhai Adda ac Efa. Braf cael y darluniau'n ôl.



## Arddangosfeydd MEHEFIN

**AMGUEDDFA GENEDLAETHOL CYMRU**
**Y PRIF ADEILAD, PARC CATHAYS**

Trysorau Amgueddfa Genedlaethol Cymru wedi'r daith i Japan

ARDDANGOSFEYDD MEHEFIN

**AMGUEDDFA GENEDLAETHOL CYMRU**
**Y PRIF ADEILAD, PARC CATHAYS**

Trysorau Amgueddfa Genedlaethol Cymru - o Mehefin 1af Wedi'r daith i Japan, wele'r darluniau yn ol gartref.

Darluniau i ysgolion - Mai 11 - Gorffennaf 5ed.

**THEATR Y SHERMAN, HEOL SENGHENNYDD**

Myra Thomas, Peintiadau a Lluniadau - Mehefin 1 - 27ain

**ORIEL GERDDI HOWARD, GERDDI HOWARD**

Gwaith Gradd a Diploma - Mehefin 27 - 29ain.

Cyfle i weld y gweithdai, stiwdios a gwaith myfyrwyr blwyddyn olaf mewn celfyddyd cain, ceramigiau, dylunio diwydiannol a cynllunio gwnol

**CHAPTER, HEOL Y FARCHNAD, CANTON**

Gweledigaeth Geltaidd - o Mehefin 13eg.

Rhaid peidio colli'r cyfle o weld yr Arddangosfa bwysig hon. Ymddangosodd gyntaf yn Sbaen yn 1985, eisioes wedi bod yn yr Iwerddon, Yr Alban, Oriel Mostyn, Jarrow a Penzance. Changwyd ar ymddangosiadau yr Arddangosfe ar gyfer Cymru.

## CYNGHERDDAU AC ARDDANGOSFEYDD

Mai 6 - Mehefin 26, 1987

Rhaglen newydd o arddangosfeydd crefft a chyngherddau ganol-dydd yw Llewyrch a gyflwynir yn wythnosol drwy gydol misoedd Mai a Mehefin gan Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn y Prif Adeilad, Parc Cathays, Caerdydd.

Bydd y cyngherddau yn apelio at chwaeth amrywiol gyda cherddoriaeth glasurol, cerddoriaeth werin, jazz a cherddoriaeth gynnar. Ymhlith perfformwyr bydd côr siambr, triawd jazz, datgeiniaid cerddoriaeth gynnar, pumawd offerynnol pres a chwyth, yn ogystal a nifer o grwpiau gwerin yn canu yn y Gymraeg ac yn y Saesneg. Bydd dewis hefyd o berfformiadau gan gantorion ac offerynwyr.

Arddangosir crefftau yn amrywio o wneud offerynnau cerdd i gelfyddyd brethynnau, cerflunio a chrefft y crochenydd. Bydd cyfle hefyd gyda rhai o'r crefftau i ymarfer y sgiliau sy'n berthnasol i'r gweithgarwch.

Mae'r digwyddiadau yn rhad ac am ddim. Mae rhaglen arbennig ar gael yn cynnwys manylion o'r digwyddiadau. Cysylltwch â'r Swyddog Hyrwyddo, Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF1 3NP. Rhif ffôn: (0222) 397951, est. 293.

Yn ddiweddar agorwyd tŷ arall yng Nghanolfan Iaith Nant Gwytheyrn. Cafwyd diwrnod agored llwyddianus iawn yno. Dyma lun John Albert Evans, Caerdydd, Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth yn ystod seremoni agor y tŷ yn swyddogol. Dysgwyr o Glwyd fu'n gyfrifol am adnewyddu'r tŷ.



# SÊR Y DINESYDD

EIRY PALFREY

ARIES: Dylai Mehefin fod yn fis ardderchog i chi. Bydd llawer o newidiadau trawiadol yn digwydd yn ystod y mis a all newid eich bywyd yn gyfangwbl, yn y gwaith, yn ariannol ac yn eich bywyd personol. Wynebwch y cyfan, peidiwch a chuddio!

TAURUS: Bydd hwn yn fis o fwynhad pur, o bartion a chymdeithasu, a mwynhau cwmni eich cyfeillion. Peidwich a'i gorwneud hi nawr, neu mi fyddwch chi a'ch banc yn dioddef! Fe allai hwn fod yn fis rhamantus iawn i chi hefyd.

GEMINI: Mis cymysglyd pan fyddwch yn dueddol o gweryla gydag eraill, yn enwedig eich cymar. Mae'n bwysig trafod eich problemau, a chodi rhai hen grach cyn i bethau fynd yn waeth. Daw pethau lawer yn well erbyn canol y mis.

CANCER: Does dim dwywaith nag ydych chi'n berson eitha seicig, dilynwch eich greddf y mis hwn ag ewch chi ddim yn bell iawn o'ch lle. Mae hi'n bryd bellach i chi drawsnewid eich byd creadigol a phersonol.

LEO: Mae na bosibilrwydd y byddwch yn fwy cwerylgar nag arfer y mis hwn, yn enwedig gyda'ch cymar. Ceisiwch fod yn amyneddgar, gan fod hwn yn gyfnod rhwystredig iawn i chi mewn sawl ffordd. Daw pennod bwysig i ben yn eich bywyd.

VIRGO: Bydd ansicrwydd a chweryla yn y gwaith a'r cartref yn siwr o'ch poeni nawr. Peidiwch a gadael i'r sefyllfa eich cael i lawr. Dianc fyddai orau a gadael i'r storom chwythu ei hun allan. Daw pethau llawer yn well erbyn canol y mis.

LIBRA: Mi fyddwch yn ei chael hi'n fwy anodd nag arfer i wneud penderfyniad yr haf yma. Pam nag anghofiwch chi'r cyfan a mynd i rywle tawel a phoeth i synfyfyrio. Mae'r elfen o deithio yn gryf iawn yn eich siart ar hyn o bryd. Cymerwch fantais ohono.

SCORPIO: Mae newidiadau ar droed all newid eich byd er gwell ond i chi adael iddynt a pheidio â bod yn styfnig. Mae hi'n hen bryd bellach i chi edrych o ddifri ar eich byd a'ch bywyd ac ailwampio'r elfennau sy'n gofyn am hynny.

SAGITTARIUS: Rwy'n ofni na fyddwch yn teimlo gant y cant a ddechrau Mehefin fe all y sefyllfa yn y gwaith, y cartre neu'ch iechyd eich cael i lawr. Byddwch amyneddgar, daw pethau yn well o lawer erbyn diwedd y mis.

CAPRICORN: Mis cymysglyd fydd hwn, gydag elfen o dwyll o'i gwmpas, felly peidiwch â chredu pob peth a glywch ac a welwch. Neu efallai mai chi fydd yn gwneud y twyllo. Wynebwch y posibiliadau hyn a chewch chi ddim niwed parhaol. Byddwch yn barod am broblemau yn y gwaith.

AQUARIUS: Mae hi'n bryd cynllunio ar gyfer y dyfodol tra bo'r sêr i gyd o'ch ochr. Efallai y byddwch yn newid eich meddwl am eich gyrfa a synnu pawb, yn enwedig chi'ch hunan. Cofiwch fod newid yn beth iachus, felly byddwch hyblyg.


PISCES: Bydd Mehefin yn fis eitha cymysglyd i chi, yn enwedig yn emosiynol, felly peidiwch â gadael i neb gymryd mantais ohonoch pan fyddwch yn teimlo'n isel. Efallai y dylech wneud rhai newidiadau yn eich bywyd i wella'r sefyllfa.

CANOLFAN YR URDD
HEOL CONWY
TREGANNA
CAERDYDD

TAFLEN

LLYFRAU
RECORDIAU
CASETIAU
CARDIAU

Ar Agor
10.00 – 7.00 (5.00 Sad)
Ffoniwch Eich Archeb
CAERDYDD 27530



# Anrhydeddu Lisa Clwyd

Daeth llwyddiant i ran disgybl yn Ysgol Gyfun Glantaf yn ddiweddar, mewn cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus. Enillodd Lisa Clwyd Jones o Radur y wobr gyntaf mewn cystadleuaeth a drefnwyd gan y British Junior Chamber ac a noddwyd gan Banc Lloyds. Roedd y gystadleuaeth i dair mil o siaradwyr, yn agored i blant dan 16 yn holl ysgolion uwchradd Prydain.

Wedi ennill y rownd rhanbarthol yng Nghaerdydd, aeth Lisa ymlaen i ennill y rownd gyn-derfynol yn Solihull i sicrhau lle yn y rownd derfynol yn Chesterfield. Yno, yn cystadlu yn erbyn llawer o ddisgyblion ysgolion Bonedd Lloegr, fe gipiodd y wobr gyntaf o £100 a £100 i'w hysgol. Roedd dau Aelod Seneddol ar y panel beirniaid, Edwina Currie a Tony Benn.

Yn y profion cyn-derfynol fe siaradodd Lisa ar y pwnc, 'Is Big Brother watching you?' Yn y prawf terfynol, 'Will women ever be equal?'.

Yn y llun mae Lisa yn derbyn gwobr am ei llwyddiant yn y rownd rhanbarthol yng Nghaerdydd gan Mr. J.H. Askham, Cyfarwyddwr Banc Lloyd yn Ne Cymru.



GWASG I FENYWOD CYMRU

# — HONNO —

Gobeithio na fydd gwahaniaeth gennych ein bod yn ysgrifennu atoch eilwaith; mae cymaint ohonoch wedi sôn eich bod yn bwriadu prynu cyfranddaliadau ond eto heb roi pin ar bapur, neu wedi colli ein taflen.

Cawsom ymateb calonogol iawn i'n llythyr cyntaf, sydd wedi ein hargyhoeddi fod yna wir frwdfrydedd i fenter o'r fath. Eisoes mae tua 200 o fenywod wedi prynu cyfranddaliadau a hynny wedi codi swm o ryw £3,000.

Mae hyn ynghyd â grant bychan gan Swyddfa Menywod y Gymuned Ewropeaidd wedi ein galluogi i gwrdd a chostau dechreuol, megis cynhyrchu taflenni, talu am bapur, ffotogopio, stampiau a.y.b. Fel canlyniad i grantiau pellach gan Gyngor y Celfyddydau a'r Cyngor Llyfrau Cymraeg rydym wedi lansio ein dau deitl cyntaf.

Bydd unrhyw gyfraniadau newydd yn fodd i ni gyflymu'r broses o gyhoeddi ein dau deitl nesaf. Wedyn gobeithiwn y bydd yr elw o werthiant ein llyfrau yn ein gwneud mwy neu lai yn hunangynhaliol.

Hefyd, bwriadwn gynhyrchu set o gardiau post. Os oes gennych ffotograffau diddorol - teuluol neu hanesyddol - o fenywod a chanddynt gysylltiad Cymreig buasem yn falch iawn o glywed oddi wrthych. Hefyd anfonwch eich sylwadau a'ch syniadau.



EIN DAU DEITL CYNTAF

An Autobiography of Elizabeth Davis, (Betsy Cadwaladyr) A Balaclava Nurse gyda chyflwyniad newydd gan yr hanesydd Deirdre Beddoe.

Stori yw hon am ddynes anhygoel a adawodd y Bala'n ferch ifanc i fynd i weini i Loegr. Teithiodd dros y byd i gyd, gan greu argraff gofiadwy ar bawb a'i chyfarfu, ac ar ôl gwrthod sawl cariadfab, penderfynodd fentro yn hwyr yn ei hoes i fyd y gad yn y Crimea i weini ar y claf a'r clwyfedig. Yno daeth i'r afael a Florence Nightingale, ac yn wahanol i'r farn draddodiad am y ddynes honno, nid oedd gan Betsy barch o gwbl tuag ati. Mae'r hunangofiant yma'n ddogfen hanesyddol werthfawr, ac yn enghraifft brin o ddynes a feiddiodd herio confensiynau eu dydd.

Buwch ar y Lein gan Hafina Clwyd

Detholiad o ddyddiaduron Llundain yw'r llyfr yma sy'n rhoi disgrifiad bywiog i ni o'r cyfnod a dreuliodd yr awdur fel athrawes ifanc yn ysgolion Llundain yn niwedd y pumdegau.

Cawn hefyd hanes ei chyfraniad egniol i gymdeithas Cymry Llundain, dau awyrgylch hollol wahanol, sy'n creu cyferbyniad trawiadol.

Rosanne Reeves / Althea Osmond

# PRIF BENCAMPWRIAETHAU BYD-EANG CERDDORIAETH AC ATI!

Pa aelod o Dire Straits fu'n chwarae ar recordiau cynnar Sain? Pa Gymro Cymraeg wnaeth enw iddo'i hun fel un o'r "Velvet Underground" yn y chwedegau?

Mae aelod o'r Flying Pickets a ddaeth i'r amlwg yn y lle cyntaf fel rhan o'r "Blew", y grŵp roc Cymraeg hanesyddol hwnnw, pwy ydyw? Beth oedd teitl y record gyntaf erioed a ryddhawyd gan Sain?

Dyma'r math o gwestiynau a ofynnir i sêr y byd roc a'r cyfryngau mewn cyfres cwis pop a ddarlledir ar S4C o NOS IAU, 14 o FAI, ymlaen. Teitl y gyfres naw wythnos hon yw "Prif Bencampwriaethau Byd-Eang Cerddoriaeth Gyfoes Cymreig a Rhyngwladol, 1954-1987 - a Chaneuon Eraill" ac fe'i chynhyrchir gan Teledu Twr o Fangor, cwmni sydd, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, wedi arbenigo mewn llawer iawn o gyfresi ar gyfer pobl ifanc. Un o'r rhain yw "Drannoeth y Ffair".

Dywedodd llefarydd ar ran y cwmni y byddai'r cwestiynau wedi eu gosod ar wybodaeth o'r byd roc Cymraeg a Rhyngwladol. "Deng mlynedd yn ôl, breuddwyd yn unig fyddai meddwl am brosiect fel hon ond datblygodd y byd roc yn rhyfeddol yn ystod y cyfnod hwn, ac yn awr mae digon o ddeunydd ar gael fel y gall y byd roc Cymraeg sefyll ochr-yn-ochr a'r un rhyngwladol".

Y cyflwynydd yw Geraint Griffiths y canwr roc amryddawn o Gaerfyrddin. Y ddau gapten sefydlog yw Derec Brown a Gwenno Dafydd. Ymysg y panelwyr mae aelodau grwpiau roc fel Neil Williams (Maffia), Dylan Huws (Ficar), Owen Hughes (Bwchadanas), Rhiannon Tomos, Louis (o'r Rocyrs) a pherfformwyr adnabyddus fel Sue Roderick, Gillian Elisa Tomos, Arfon Haines-Davies, Mici Plwm, Huw Jones, Delyth Wyn a Sian Wheyway. Panelydd arall fydd Gareth Potter, a dyma ei ymddangosiad cyntaf ar deledu Cymraeg ers iddo orffen chwarae rhan 'Harry' yn yr opera-sebon llwyddiannus 'Eastenders'.

Yn ôl y llefarydd fe fydd digonedd o fidios a recordiau i'w gweld a'u clywed yn y rhaglenni. "Rhoddir pwyslais ar gerddoriaeth "byw" a'r nod yw cynnig cyfres ysgafn a hwyliog a fydd yn apelio i'r helyw o gefnogwyr roc rhwng 10 a 80 oed!"

**Am fwy o wybodaeth cysylltwch** â Gwenllian Griffith, Teledu Twr.



# Colofn Shân Emlyn



Mae tymor yr Eisteddfodau wrth y drws, ac oherwydd hynny y mae camau'r Colofnydd yma yn sioncach nag arfer. Edrychaf ymlaen at droi trwyn y car am Ferthyr bob dydd. Bydd teulu yn aros efo ni, ac eisoes llanwyd y rhewgell a phrydau parod o Marks & Spencers. Nid arwydd o ddiffyg croeso yw hyn, ond mae pawb o'r teulu yn derbyn ac yn parchu mai fi o bob un ohonynt sy'n debygol o dreulio'r rhan fwyaf o'r amser yn gwrando ar y cystadleuwyr yn y Babell. Fydd 'na ddim amser i goginio yn na fydd? Mewn Eisteddfod, prin yw yr amser hyd yn oed i fynd i'r ty bach! Diolch byth bod y fath beth yn bod a chystadleuaeth "Dawns Greadigol". Dyna pryd y gwelir fi yn trampio'r cae!

O sôn am goginio, yn syth ar ôl Eisteddfod yr Urdd bydd raid picio unwaith yn rhagor i Marks & Spencers. Oherwydd ar y 13eg o Fehefin fe ddaw cawod o ymwelwyr o'r Wladfa ar ymweliad a Chymru, pedwar diwrnod yng Nghaerdydd. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwireddu breuddwyd oes ac yma am y tro cyntaf. Unwaith eto, ni fydd amser i goginio yn ogystal a'u tywys a'u diddori ar eu hymweliad. O sôn am Marks & Spencer, mi fyddai'n meddwl bob amser yr adeg yma o'r flwyddyn y dylai Marks & Spencer gyfrannu'n helaeth i goffrau'r Urdd. Meddyliwch am y miloedd o socs gwyn a welir ar y llwyfan yn ystod yr wythnos. Meddyliwch am y corau adrodd, cerdd dant ac ati sydd wedi prynu sgerti a blowsus o'r siop honno. Am wn i na ddylwn i anfon yr awgrym yma at Drysorydd yr Urdd.

Cyn cyffro'r Eisteddfod, mae 'na gyffro arall yn ein ty ni. Y mae Elin wedi gwerthu ei thŷ ac yn bwriadu symud i fflat. Yn nodweddiadol o fywyd Elin, y mae cymhlethdodau ym mhob trefniant a chynllun. Wrth gwrs nid yw'r fflat yn rhydd am rai wythnosau, felly yn ôl i Goed y Pry y daeth Elin - y dodrefn i gyd, cyrtans, dillad, llyfrau, recordiau, rhewgell, planhigion - a rheiny wrth gwrs a golwg sychedig arnynt - i gyd yn blith draphlith yn y garej, yn y gegin, yn yr ystafell fwyta, ac yn ei llofft. Sut mae hi'n cyrraedd ei gwely wn i ddim. Y bore o'r blaen cafodd chwiw i fynd i nofio - wel, ble roedd y wisg nofio? Ai yn un o'r chwe cês, yn un o'r hylltod bagiau bin du - neu ble? Gallwch ddychmygu'r llanast. Ond, ta waeth am hynny, mae cael ei chwmni gartre yn chwa o awel iach, ac yn gwneud tŷ bler yn lle llawer cleniach na fi fel marblen yn rhowlio o gwmpas tŷ glinigol lân a thwt. Yma, dros dro y daw disgyblion Elin i gael gwersi ffidil. Cyfle bach i Mam glustfeinio ac ail fyw'n atgofus y dyddiau y bu Elin ei hun yn crafu'n boenus sŵn amhersain o linynnau'r offeryn anodd hwnnw.

Ydy cynnwys y golofn hyd yn hyn o unrhyw ddiddordeb ichi? Mae yn debygol nad yw, ond, mae'n rhaid llenwi colofnau'r Dinesydd rywsut. Wedi deuddeg mlynedd o bapur ffeil a beiro, rhaid cyfaddef bod y meddwl a'r dychymyg mewn peryg o fynd yn hesb. Wrth lunio'r golofn hon, ni fydd gennyf unrhyw syniad beth fydd ei chynnwys. Yr hyn a wnaf yw eistedd wrth fwrdd y gegin a thudalen lan wag o'm blaen, a dechrau arni trwy roi "Colofn y Dinesydd" ar ben y dudalen ac aros am ysbrydoliaeth. Ysbrydoliaeth medda chi? Wel, na yn aml, yn rhy aml o lawer, yr hyn a wnaf yw rwdlan fel hyn nes y bydd tudalen a hanner o bapur ffeil wedi ei lenwi - sef maint a hyd y Golofn. Mae gen i hanner tudalen i fynd. Be wnai?

Rhoi'r beiro i lawr am bum munud wedi wyth bore Sadwrn i wrando ar John Robert Williams "Dros ei Sbectol". Rhyfeddu sut y mae'n llenwi ei golofn wythnosol ar y radio, ia, wythnosol ac nid misol. O na fyddai gen i ei ddychymyg, ei arabedd a'i ddawn geiriol.

I gloi, sori, ddarllenydd. Gan bod y Gwladfawyr sydd ar fin dod yma ar fy meddwl, mi adroddai stori fach ddwedwyd wrthai gan ffrind o Drelew. Trafod anobaith yr oedda ni a medda hi: Unwaith roedd 'na ddwy lygoden fach wedi syrthio i lond pwced o lefrith. Meddai un ohonynt, "Wel, dyma fi, dwi'n mynd i foddi" ac fe foddodd. Meddai'r llall "Tydw i ddim am foddi" a dyma hi'n padlo, ac yn padlo a phadlo nes troi'r llefrith yn gosyn ac eistedd yn fuddugoliaethus ar ei gopa. Rhyw ysbryd fel yna sydd raid i lawer ohonna ni ei feithrin yn aml ynte?


# WYTHNOS YN ISRAEL

**HYDREF 24–TACHWEDD 1, 1987**

Cyfle da i athrawon

Hefyd dau le ar ôl ar daith i Dwrci yn gadael Awst 19.

**FFONIWCH CYNWIL WILLIAMS CAERDYDD 486457**



# Chwifiwn ein Baneri

Baneri'n cyhwfan yn y gwynt ar ben muriau Castell Caerdydd sy'n cyhoeddi'r drydedd gystadleuaeth 'CANWR Y BYD CAERDYDD'. Yn ogystal â baneri'r gwledydd sy'n cael eu cynrychioli eleni mae rhes o faneri lliwgar yn crogi ar hyd y muriau lle y gwelir arnynt yn eglur enw'r gystadleuaeth yn y ddwy iaith.

Yn y cyfarfod lansio a gynhaliwyd y tu mewn i'r castell fe gawsom hanes rhagolygon yr achlysur i gyfeiliant amhersain y peunod poenus sy'n porthi eu balchder ar lawntiau'r castell. Clywsom fod nifer y cystadleuwyr yn 25 a bod Bwlgaria'n anfon canwr eleni am y tro cyntaf. Daw'r lleill o Brydain, o nifer o wledydd Ewrop, o China ac o Ogledd America. Gofid Mervyn Williams oedd nad oedd ymateb eto wedi dod o Rwsia na chyfandir De America.

Er mai cantorion ieuainc fydd pawb o'r cystadleuwyr, nid cywion mohonynt ond perfformwyr ar eu prifiant. Mae pawb ohonynt wedi'u hyfforddi ond maen nhw i gyd yn dal i ddysgu ac un ffordd o ddysgu yw trwy gystadlu. Dônt yma i ganu dan amodau cwbl broffesiynol, yn un o neuaddau mwyaf arbennig Ewrop, os nad y byd. Wrth iddynt droedio llwyfan Neuadd Dewi Sant fe fydd naill ai Cerddorfa Symffoni Gymreig y BBC neu Gerddorfa'r Cwmni Opera'n gefn iddynt. Cânt eu tywys gan ddau arweinydd profiadol sef Owain Arwel Hughes a Richard Armstrong. O'u blaen bydd y gynulleidfa, y panel beirniaid, y camerâu teledu a'r meicroffonau.

Creadigaeth y teledu yw'r gystadleuaeth hon a chreadigaeth BBC Cymru. Fe'i teledir bob nos ar BBC 2 ac er cystal hynny mae'n biti nad oes modd ei chael drwy gyfrwng y Gymraeg. Sut bynnag am hynny mae'n bur debyg y bydd cryn dipyn o hwyl 'gwlad y gân' yn yr holl weithrediadau ac mae gan Gymru ddau o'i chantorion mwyaf disglair ar banel y beirniaid, sef Helen Watts a Syr Geraint Evans. Cadeirydd y panel yw Brian McMaster, prif weinyddwr ein Cwmni Opera a'r pedwar arall fydd yn rhannu'r bwrdd yw Kim Borg, y baswr gwych o'r Ffindir, Judit Sandor, cantores opera o Hwngari, yr Athro Shen Xiang o Beijing, a Larry Stayer o'r Metropolitan, Efrog Newydd.

Ymgeisydd Cymru yw Helen Hessey-White a anwyd yn Nhonyrefail. Wedi bod drwy ysgol gerddorol ei thad, Richard Williams, aeth Helen yn ei blaen i'r Coleg Cerdd a Drama yma ac yna i'r Coleg Brenhinol yn Llundain lle cafodd Ysgoloriaeth Opera. Erbyn hyn mae hi'n gosod ei thraed ar ysgol galed ei dewis yrfa, ac mæ'r gystadleuaeth hon yn rhan bwysig o'i hysgol profiad.

Drwy nawdd helaeth y BBC a chefnogaeth sylweddol Dinas Caerdydd a Bwrdd Croeso Cymru, fe fydd hi'n dipyn o "eisteddfod y cantorion" o Fehefin 14 ymlaen. Bydd pob un o'r rowndiau cynderfynol yn gyngerdd ynddo'i hun heb sôn am gamp y rownd derfynol. Dewch yno bob nos ac yna pan gyrhaeddwch nôl yn y ty cewch gyfle arall i weld y datgeiniaid ar y set deledu. Fe gewch hyn yn ymarfer digon diddorol ynddo'i hun. Y gwir amdani yw bod pawb yn cystadlu - y cantorion am y llawryf, ac mae'n dda nodi mai ond un enillydd fydd bellach, ni'r gynulleidfa yn barnu a nhw'r panel yn dyfarnu. Mae'n hwyl i bawb a rhwydd hynt i'r drydedd yn y gyfres bwysig hon sy'n croesi pob ffin.

Wynne Lloyd.

# BRAS-ODLAU

Llongyfarchiadau cynnes i holl blant ac ieuenctid ardal Caerdydd a fu'n fuddugol yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Merthyr Tydfil.

Sara Ogwen enillodd gystadleuaeth y Gadair yn Eisteddfod yr Urdd ym Merthyr Tudful.Nid oes neb wedi ennill y wobr yma mewn oedran iau na Sara, heblaw am y Prifardd Gerallt Lloyd Owen - tipyn o gamp yn wir. Cafodd ganmoliaeth uchel gan y beirniad, y Prifardd Dic Jones, am ei cherdd ar y testun 'Terfysg'. Mae'r gerdd yn dangos gallu delweddol gref yn ogystal â grym mynegiant.
Mae Sara ar hyn o bryd yng nghanol terfysg arall - ei harholiadau lefel O, ond mae'n siwr y clywn ragor amdani yn y dyfodol. Dyma enghraifft arall o'i gwaith cerdd ysgafn ar yr olwg gyntaf, ond un sydd hefyd yn dangos cynildeb sylwgar

<u>Caerdydd am y Dydd</u>

Sharon a Darren a Tracy a Wayne
Yn mynd i Gaerdydd am y dydd ar y tren.

Mae Sharon yn gweithio yn gyson mewn siop
A Tracy'n trin gwallt yn gyson fel YOP.

Mae Darren a Wayne ill dau ar y dol
Am nad oes dim swyddi i fechgyn ar ôl.

Yn ei *overall* pinc wrth y til y mae Sharon
Yn pwyso'r botymau; breuddwydio am Darren.

Mae Tracy yn rhuthro drwy gydol y dydd,
Sgubo'r llawr a gadael perms yn rhydd.

Darren a Wayne, wel druan â nhw,
Yn yfed mewn bar ar ôl bod yn y ciw.

Mae'r pedwar yn cwrdd yn ôl ar y tren
Sef Sharon a Darren a Tracy a Wayne.

Medd Darren wrth Wayne, "Dyna ddiwrnod da,"
Medd Tracy wrth Sharon, "Wi'n shattered, Shar."

# LLONGYFARCHIADAU



Achlysur llawen iawn oedd priodas David Boobier a Nia Samuel yng Nghapel Pendref Bangor ar Ddydd Sadwrn yr ail o Fai. Priodwyd y ddau gan y Parch. John Gwilym Jones a'r parchedigion Raymond Williams (Caerdydd) a Robin Samuel (Trelech) yn cymryd rhan yn y gwasanaeth. 'Roedd awyrgylch hyfryd a chanu nodedig, gyda lleisiau cyfoethog cymoedd y De a'r Gogledd yn atseinio drwy'r capel. 'Roedd hi'n amlwg fod y rhai di-Gymraeg wrth eu bodd yn ymuno yn yr emynau Cymraeg. Sian Boobier, Rhian Morgan ac Elin Samuel oedd y morynion priodas. Mr. Gwyn Eurig Davies oedd y gwas priodas. Fe ganodd Rhian Morgan unawd *Et Exultavit Spiritus Meus* J.S.Bach. Yr organydd oedd Mr. Meurig Llwyd. Dathlwyd gwledd y briodas a pharti wedyn yng ngwesty'r Bulkeley arms, Biwmares, cyn i'r cwpl ifanc ymadael ar eu mis mêl i Sicily.
Cyfreithiwr yw David, fe'i gwnaed yn bartner yng nghwmni Hugh James Jones & Jenkins ddiwrnod cyn ei briodas. Ganwyd ef yng Nghaerdydd, yn fab i Cit Boobier a'r diweddar Desmond Boobier. Cafodd ei addysg yn ysgolion Bryntaf a Rhydfelen cyn graddio yn y gyfraith yn Aberystwyth a Chaer. Mae'n aelod o Glwb Rygbi Cymry Caerdydd ac yn ymddiddori mewn canu a drama.
Ganwyd Nia yng Nghwm Afan, yn ferch i Mr a Mrs Alwyn Samuel. Symudodd i Fangor i fyw pan apwyntiwyd ei thad i swydd gyda Radio BBC. Graddiodd mewn Drama a Chymraeg ym Mhrifysgol Aberystwyth. Ar hyn o bryd mae'n cymryd rhan yn nrama *Blodeuwedd* gan Saunders Lewis gyda chwmni *Eryr Wen* sy'n perfformio yn ysgolion Gwynedd. Bydd David a Nia yn ymgartrefu yn eu ty newydd yn Windway Road, Treganna. Yn y llun gwelir Nia a David yn torri'r gacen briodasol.


**EIN TELERAU HYSBYSEBU**

TUDALEN GYFA............£90

HANNER TUDALEN..........£55

CWARTER TUDALEN.........£30

TRAEAN TUDALEN..........£35

CHWECHED TUDALEN........£18

HYSBYSEBION BYCHAIN.....£5 - £8

GWOBR GOFFA
GRIFFITH JOHN WILLIAMS



Mewn cyfarfod a gynhaliwyd yn Aberystwyth yn ddiweddar, dyfarnodd yr Academi Gymreig Wobr Goffa Griffith John Williams ac y gyfrol Gymraeg a wnaeth yr argraff fwyaf ffafriol ar aelodau'r Academi o blith y rhai a gyhoeddwyd yn ystod 1986 (gan eithrio'r rhai a ysgrifennwyd gan yr aelodau eu hunain). Wedi trafodaeth fywiog penderfynwyd dyfarnu'r wobr am eleni i ddwy gyfrol, gan fod y ddwy mor ragorol ynddynt eu hunain ac eto mor wahanol nei ei bod yn anodd eu cymharu'n ystyrlon. Dyma'r cyfrolau, ynghyd ag ychydig sylwadau gan y rhai a fu'n gweithredu fel prif feirniaid ar ran yr Academi:

Ray Evans, 'Y Llyffant'
(Gwasg Gomer)

'darn o farddoniaeth .... yn cyfleu holl wewyr merch fach sensitif ar ei thyfiant.'

(Marion Eames)

J. Beverley Smith, 'Llywelyn ap Gruffudd Tywysog Cymru'
(Gwasg Prifysgol Cymru)

'Agorodd Beverley Smith ddôr ar ddarn tyngedfennol o'n gorffennol, a'i lenwi o oleuni.'

(Gareth Alban Davies)

Trefnir cyfarfod neu gyfarfodydd gyda hyn i anrhegu'r awduron buddugol yn ffurfiol.

Ganwyd Ray Evans ym mhentref Llanybydder yn yr hen Sir Caerfyrddin ac addysgwyd hi yn Ysgol Sir Llandysul a Choleg y Brifysgol Aberystwyth. Mae'n wraig weddw ac yn byw yn Rhiwbeina, Caerdydd. Dyma'i hymgais gyntaf ar ffurfio nofel, er ei bod wedi bod yn ymddiddori mewn ysgrifennu creadigol ers yn blentyn. Enillodd y nofel, sydd wedi'i seilio ar atgofion merch fach yn tyfu i fyny yn y tridegau, y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol Abergwaun 1986. Llongyfarchiadau cynnes iddi ar ennill yr anrhydedd hon eto.

# BWRW SUL YN BARCELONA

Wrth eistedd ar fore Sul yn sipian coffi yn y Plaza Raial yn Barcelona mae egni a brwdfrydedd y ddinas yn treiddio i'm hymysgaroedd. Nid dinas i bendwmpian yn yr haul mo prifddinas Rhanbarth Annibynnol Catalunya. Tra bo clychau'r eglwysi yn canu mae'r sgwar yma ynghanol yr hen ddinas yn fwrlwm o fusnes : stondinau bach ar fyrddau'r caffis yn gwerthu stampiau a hen ariawn a phlant a henoed fel ei gilydd yn chwilio bargen. Wynebau Catalanaidd; seiniau'r iaith Catallan; ail iaith yw'r Sbaeneg yma yn y ddinas, a chan fod pedair miliwn o boblogaeth y wlad yn byw yn y ddinas a'i chyffiniau, does ryfedd yn y byd fod yr iaith mewn sefyllfa gref. Mae dau bapur newydd dyddiol, sianel deledu, yn dangos pedwar ugain awr, tonfeddi radio, dwsinau o lyfrau bob wythnos a holl waith y senedd yn yr iaith Catallan, yn dystiolaeth o drefn naturiol pethau.

A dyma fi'n meddwl am nos Sadwrn. Hen gyfaill, Xarier Velda, yn fy nghyfarfod yn y Maes Awyr a'm hebrwng i'r gwesty. Gwahoddodd fi am swper gydag o a'i wraig yn eu fflat ynghanol y ddinas - bwyd Catalanaidd, medde fo, gyda digon o olew a garlleg. Wn i ddim pa effaith gai hynny ar yr hen stumog ond roeddwn i'n edrych ymlaen hyd yn oed wedi iddo ddweud nad oedden nhw'n arfer cychwyn swper tan tua deg o'r gloch. Cyrraedd y fflat erbyn tua wyth o'r gloch ac yntau a Rosser, ei wraig, yn fy siarsio i gloi popeth. Roedd llawer adwaith i ddiflaniad yr hen deyrn Franco, a'r mwyaf anffodus oedd cynnydd anferth mewn dwyn. Mi ddwynith y Catalaniaid (a'r Sbaenwyr) unrhyw beth o gar mewn eiliadau - radio a hyd yn oed pethau o'r gist. Mi gymrais y cyngor ac mi fum yn ffodus. Ond yn ôl at y noson.

Bwyta allan ar y balconi oedd y peth yn mwynder hwyrddydd o Fai yn Barcelona. Ac yno yn hongian ar y wal yn fy nisgwyl roedd anferth o Ddraig Goch! Dyna sut i wneud i grwydryn deimlo'n gartrefol. Anrheg i Xarier gan Gwynfor Evans oedd y faner wedi iddo fo fel cenedlaetholwr ifanc yrru'r cenedlaetholwr o Gymru o gwmpas y wlad cyn dyddiau datganoli yn Sbaen. Roedd yn falch o'r cysylltiad ac yn falch o roi'r cyfle i minnau deimlo'n gartrefol yn ei wlad.

Cyn dechrau bwyta roedd am ddangos mannau yn y ddinas oedd o arwyddocad. Mae bryniau uchel o gwmpas sy'n cyfyngu ar faint y gall Barcelona ymestyn ar lawr - felly at i fyny mae'r cynnydd yn digwydd. Ond nid mor uchel a'r bryniau lle'r adeiladwyd cestyll dros y canrifoedd gan y concwerwyr i gadw golwg a chadw trefn ar y Catalaniaid. Tua'r de ddwyrain roedd Mont Juich - mynydd yr Iddewon. Hon oedd Caer Franco er nad oes dim delw ohono ar gyfyl y lle erbyn hyn. Gallwn weld y gynau anferth wedi eu hanelu at ganol y ddinas - ac er iddo ddweud mai Amgueddfa oedd hi bellach - gallwn weld y chwerwder yn ei wyneb wrth son am orthrwm y Cadfridog. Saethwyd ugain mil o Gatalaniaid yn y castell yma yn ystod teyrnasiad Franco. Os oes angen unrhyw beth i gyffroi gwladgarwch - mae'n amlwg fod y math yna o ormes yn sicr o wneud hynny.

"Ond pam fod y Catalaniaid wedi llwyddo i gadw'r parch ac archwaeth at fywyd o dan y drefn bresennol, tra bod y Basgiaid yn dal i chwilio am atebion trwy ddulliau trais"? medda fi. "Mae 'na ddwy ffactor bwysig," medde fo, "mae ganddon ni iaith ac arian. Mae mwyafrif y boblogaeth yn siarad Catalan, a rhaid i'r bobl sy'n methu ofyn am ffurflenni swyddogol yn y Sbaeneg. Dyma sumbol ein hunaniaeth na allai Franco na neb arall ei ddinistrio. Ac, wrth gwrs, mae'r ffaith fod Barcelona yn ganolfan masnach byd-enwog wedi rhoi inni'r traddodiad o drin arian gyda gweddill y byd".

Yn anffodus, mae iaith y Basgiaid yn marw a does ganddyn nhw ddim yr un sumbolau diwylliannol a'r Catalaniaid i gynnal eu gwladgarwch. Does dim llenyddiaeth yn iaith y Basg gan mai iaith lafar ydy hi, ond mae Catallunya yn llawn diwylliant a sumbolau.

Rhyw siarad fel 'na wnaeth hi nos Sadwrn ac wedyn nos Sul mynd i weld un o'r sumbolau diwylliannol hyn ar waith - gem beldroed rhwng Barca a chlwb arall y ddinas - Espanyol. Doedd hi ddim yn gem dda, doedd 'na ddim un gôl a doedd Mark Hughes ddim yn chwarae. Ond roedd hi'n achlysur ac yr oedd egni a brwdfrydedd y dorf yn rhoi rhyw syniad o beth oedd Xarier yn ei feddwl. Mae diwylliant sy'n rhan o fywyd pobl, mae llenyddiath berthnasol ac y me iaith yn anad dim arall yn clymu pobl at ei gilydd. Dyma'r grymoedd sy'n gwareiddio pobl. Duw a wyr, y mae angen eu defnyddio nhw yn hytrach nag anwareidd-dra trais yn y byd cyfoes.

Euryn Ogwen

Llongyfarchiadau i Huw a Leonie Hall Williams ar enedigaeth eu mab cyntaf, Dafydd Hall Williams.

Dymuna'r 'Dinesydd' gydnabod gyda diolch y grant tuag at gostau cyhoeddi a dderbyniwyd o goffrau'r Swyddfa Gymreig drwy law Cymdeithas Celfyddydau De-ddwyrain Cymru.

## Cylch Cinio

## Gwragedd Caerdydd

Nos Iau, Mai y 7fed, daeth Tymor Cylch Cinio Gwragedd Caerdydd i ben. Cafwyd cinio blasus yng Ngwesty'r Phoenix yn Llanishen, a digon i gnoi cil arno gan ein gŵr gwadd, Islwyn Jones - neu Gus i'r rhan fwyaf ohonom. Llwyddodd gyda'i ffraethineb arferol i gyfuno hiwmor a sylwedd. Cawsom ein haddysgu yn ogystal â'n difyrru. Bwrdron ei sgwrs oedd cymharu cyfraniad Idwal Jones a Waldo gan ein goleuo cymaint oedd yn gyffredin i'r ddau. Tueddwn i feddwl am Idwal Jones fel bardd y cerddi ysgafn a Waldo a'i farddoniaeth ddofn a sylweddol. Llwyddodd Gus i ddangos bod yr un hiwmor, dawn a chrefft gan y ddau. Tynnodd ein sylw fel y bu i'r ddau anwybyddu holl gynghorion Syr John Morris Jones i feirdd! Byddwn i gyd o hyn allan yn edrych ar waith y ddau fardd â llygaid newydd.

Yn ôl haelioni arferol y Cylch ar ddiwedd y noson, cyflwynwyd siec am £100 i'r Dinesydd. Gwerthfawrogwn y rhodd yn fawr, gan bod digon o le bob amser yng nghoffrau'r Dinesydd i bob rhodd, boed fawr neu fan. Daeth tymor ein Llywydd hynaws Myfanwy Jarman i ben. Collwn ei dawn gartrefol a'i gallu bob amser i ddweud gair amserol yn ei ffordd unigryw ei hun. Bydd chwith heb y "cameos" bach y daethom i'w disgwyl ganddi. Edrychwn ymlaen at dymor llwyddiannus fis Medi dan Lywyddiaeth Owenna Hopwood, hithau hefyd yn meddu â'r ddawn dweud. Ymunwch â ni'r tymor nesaf.

## Ysgol Feithrin y Crwys yn symud cartref

Bydd yr Ysgol Feithrin Gymraeg gyntaf i'w sefydlu yng Nghaerdydd yn symud ei chartref fis Medi nesaf. Bu cenedlaethau o blant yn mynychu'r Cylch yn festri Capel Heol-y-Crwys ers pan y'i hagorwyd gyntaf ym 1952. Bu'r chwarae arfaethedig yno'n feithrinfa raenus i'r ieithyddion bach. Ond, o'r diwedd, rhaid yw symud cartref; a lle sy'n well, yn wir, na chartref Cymry'r ddinas - Tŷ'r Cymry ei hun. A dweud y gwir, nid hwn fydd y tro cyntaf i'r muriau hyn fod yn gorlan i Gymry bach Caerdydd - buont yn cyfarfod yma'n rheolaidd cyn agor yn swyddogol yn Heol-y-Crwys.

Ac, wrth gwrs, os 'Cân di bennill fwyn i'th nain, fe gân dy nain i tithau' - bydd Tŷ'r Cymry ei hun hefyd yn manteisio o'r mudo. Rhaid oedd sicrhau cyrchfan ddiogel i'r rhai ym mlodau eu dyddiau ac roedd hwn yn gyfle anwrthod i fwrw iddi i adnewyddu'r adeilad haeddiannol hwn a'i wneud yn fwy addas i'w gynnal a'i gadw am y blynyddoedd i ddod, fel y'i cadwer i'r oesoedd a ddêl .......

Eluned Jones.

# BWTH RUTH



Wel helo, a pha hwyl sydd? Erbyn hyn mae genni gwmni yn byw hefo mi!! - mi rydwi yn ei nabod ers erioed ac mae Anti Luned wedi gaddo mai ata i y byddai'n dod petae cartre teulu'r Parry's yn cael ei chwalu. Wel mae Anti Luned wedi gwerthu a gadael Penffridd ag wedi ymgartrefu yn ddel yn Hafod Elan - ag mae dresal Ned Ciando yma yng Nghaerdydd. Na, tydi Ned Ciando ddim yn perthyn i mi ond oddi wrtho fo y prynodd fy nhaid y ddresal dderw pan briododd o nain ag mi dalodd bunt, ie £1 am y ddresal a'r llestri glas a gwyn sydd arni, ag mi fagwyd saith o blant yn ei chysgod - ag mae eu hol arni.

Dwn i ddim ydach chi wedi trio symud un celficyn neu ddodrefnyn o un rhan o Gymru i'r llall - mae symud llond ty yn hawdd ond un pishyn, mae'n anodd. Wedi i mi gysylltu hefo sawl cwmni cludo rhaid oedd aros nes bod yna lori neu fan yn dod o'r gogledd i'r de hefo lle i un ddresal ar ei bwrdd. Mi arhosais bum mis a rhyw bythefnos yn ol mi ges alwad ffon yn dweud bod yna lori yn mynd i'r gogledd yn llawn ag yn dod yn ol i lawr yn wag. Doedd dim isio ond awgrym - mi drefnais y buasai Wyn (fy mrawd yng nghyfraith) yn helpu i lwytho'r pen acw ag mi drefnais i fechgyn abl, dibynnol a chlen i helpu'r dreifat a minnau - pen yma, wyddwn i ddim faint o help fyddai angen.

Roedd dresal Ned Ciando yn gadael ardal Caernarfon am ddeg y bore ag yn yncol fy 'syms' i i mi ddylai'r lori gyrraedd tua hanner awr wedi dau.

Ar y dot mi ddoth - mi rown i ar bigau'r drain - sut olwg fyddai arni wedi bod mewn warws ers pum mis? Ydi hi mewn cyflwr cystad ag own i'n ei feddwl? Dyma fynd ati i agor drysau trwm y fan - a dyna lle roedd yr hen ddresal wedi cael ei lapio mewn blanced yn ofalus a'i rhwymo'n sownd yn ochrau'r fan - Doedd hi ddim yn edrych yn sbesial iawn - ond dyna fo, mi roedd wedi cyrraedd y Brifddinas y rhaid rhoi rhyw fath o groeso ag ymgeledd iddi mewn lle diarth. Dyma redeg ar draws y lon i'r Churchills i gasglu'r ddau bar ychwanegol o ddwylo cryf a'r profiad helaeth o symud dodrefn. Mi gariais y gwpwl o ddrors i'r fflat ag mi aeth y bechgyn ati i symud y ddau ddarn - wel fuo nhw ddim chwinciad wrthi - mi ddoth i fyny'r grisiau a rownd yr holl gorneli i'r fflat yn ddi-drafferth iawn - a'r bechgyn yn ei symud fel tae nhw'n symud bocsus matsus. Fe roddwyd y rhan ucha ar y rhan isa a darganfod bod y sgriws hir bob pen yn troi yn eu hunfan - ond na hidier - mi roedd yna gopi o Sgript Newyddion Un Radio Cymru ym mhoced tin un o'r bogia - fe dorrwyd darn ohono a'i roi yn y twll a'r sgriw ar ei ol - mae o'n dal i'r dim.

Mi roedd y coedyn yn llwydaidd a dim sglein yn agos iddo - ond wedi golchi'r cyfan yn dda ddwy waith hefo finegr pur ag yna ei fwydo hefo digonedd o gwyr gwenyn - (ag mae'n dal i yfed cwyr) ag yna lot o elw penelin - ar fy rhan i mae'n dechre sgleinio - ella ei bod yn setlo!!

Dwi'n hapus iawn hefo nghwmpeini newydd - petae ond yn medru siarad!! Tybed sut mae dresal chwarelwr yn licio bod yn y Brifddinas? Diolch Gareth, Garfield ag Aled Gwyn.

OS AM WERSI PIANO, cysylltwch â

Joy Davies, B.Mus.,L.T.C.L.

Ffôn: 752173

## Y GYMDEITHAS UNDODAIDD
## Cyfadran Cymru

Ar Orffennaf y pumed fe fydd Undodiaid Caerdydd yn dathlu canmlwyddiant codi'r capel presennol yn West Grove. Ar y prynhawn Sul, fe geir darlith yng Nghapel Penrhiw, Sain Ffagan gan yr Athro Gwynn A Williams am 2.45 ac yn yr hwyr, fe geir ymweliad gan Dr. Roy Smith, Ysgrifennydd Cyffredinol yr Enwad yn Llundain. Bydd hynny am 6 o'r gloch yn West Grove.

Cynulleidfa Saesneg oedd West Grove gan mlynedd yn ôl, ond fe gychwynwyd gwasanaethau Cymraeg tua deng mlynedd ar hugain yn ôl ac yn ddiweddar, cafwyd Ysgol Sul Gymraeg hefyd ac y mae'r rhan fwyaf o'r gynulleidfa bellach yn Gymry Cymraeg. Y Parchedig Eric Jones fu'r Gweinidog ers 17 o flynyddoedd ac fe fu'r Parchedig Roy John yn Weinidog cynorthwyol ers rhai blynyddoedd bellach.

Noddwr pennaf y gynulleidfa ar y cychwyn oedd Mr. J. Woolcott Thompson a fu'n noddwr hael i lawer o fudiadau yng Nghaerdydd wedi hynny. Dengys fod llawer iawn o ddiddordeb yn y byd crefyddol yn y dyddiau hynny gyda dros fil o gynulleidfa yn mynychu darlithoedd cyhoeddus ar Undodiaeth yn y Ddinas. Americanwr oedd y Gweinidog cyntaf ond ers blynyddoedd bellach, cafwyd Gweinidogion Cymraeg eu hiaith fel y Parchedig Coram Davies; T.J. Jones; Ceirion Jones ac eraill. Mae'n gynulleidfa wasgaredig, gyda'r aelodau bellach yn teithio o ganolfannau mor bell a Chasnewydd, Casgwent, Risga, Y Bontfaen a Phontypridd.

Y Parchedig J. Eric Jones B.A.
Ysgrifennydd Cyffredinol.

# LAWR AR LAN Y MÔR....

D. Gwyn Jones yn edrych yn ôl ar Wersyll Llangrannog

Wn i ddim faint o blant o gyffuniau Caerdydd fydd yn treulio cyfnod o wyliau yng Ngwersyll yr Urdd yn Llangrannog eleni, ond rwy'n berffaith siwr mai profiad hollol wahanol fydd yn eu disgwyl i'r hyn a ges i a'm cyfeillion y tro cyntaf i mi fynd yno pum deg a phedair o flynyddoedd yn ôl - bobol bach! Roedd y daith yno'n dipyn o antur ynddoi hun yn y dyddiau hynny. Sôn am fentro i ben draw'r byd! Bws troli o Gilfynydd i'r Bont, ac yna trên bach gwthio a thynnu i'n cludo i orsaf Llantrisant (er mai ym Mhontyclun roedd honno, a bod yn fanwl gywir); trên cyflym i Gaerfyrddin, via "High Street", Abertawe- y tro cyntaf i mi weld stesion lle roedd y "main line" yn mynd allan yr un ffordd ag y daeth i mewn; trên gwahanol eto o Gaerfyrddin, trên Aberystwyth, mae'n siwr gen i, cyn belled a Phencader, newid yno a gadael ein pac yn y stesion a mynd i hel cnau (anaeddfed!) tra'n disgwyl trên bach i fynd a ni i Landysul - a chael ein cludo oddi yno mewn bws i ben y lôn oedd yn arwain i gae'r Gwersyll, a gorfod cario'n pac oddi yno trwy fuarth fferm Cefn-cwst.

Dyna i chi daith!

Sut fydd hi arnoch chi eleni, blant? Bws arbennig bob cam o Gaerdydd i glôs y fferm ie? Braf yw eich byd.

Fe fydd un peth yn aros heb newid, sef yr olygfa odidog tua y gogledd a'r gorllewin o gae'r Gwersyll - ond bydd y cae ei hun wedi newid yn fawr, neu o leia'r hyn sydd arno.

Ar wahan i'r caban bwyd a chegin "lean-to" yn sownd wrtho, caban y meddyg, a chaban R.E., Pennaeth y Gwersyll, ac un neu ddau gaban bach arall, doedd dim byd yno ond dwsin neu ragor o bebyll, rhai gwyrdd heb lawr ar wahan i bridd y cae a gorchudd drosto. Pob pabell yn dal chwech, felly doedd dim gormod o le - a chan mai un "croen" oedd iddo, pe bai rhywun un bwrw'i ben yn erbyn tu mewn y babell pan oedd hi'n bwrw glaw - ac fe fyddai'n "arllwys" weithiau - roedd perygl i'r dŵr ddod drwodd yn y fan honno. Un lamp oedd i bob pabell - dim trydan yn agos at y lle - ac, os ydi 'nghof i'n iawn, un tap dwr yn unig yn y lle i gyd.

Yn y caban bwyd y byddwn ni'n bwyta, wrth gwrs, a hwn oedd y Capel ar fore Sul, y neuadd gyngherddau a nosweithiau llawen gyda'r nos, a safle'r Eisteddfod. Ac yno roedd y siop, dan ofal R.E. y pryd hwnnw nes i Bobi Gordon ddod yno'n siopwr sefydlog.

Roedd gan yr Urdd Wersyll arall ym Mhen Llŷn yn y dyddiau hynny, ar gae fferm Porthdinllaen rhwng Edern a Morfa Nefyn, a'r drefn oedd bod y merched yno tra roedd y bechgyn yn Llangrannog, ac yna newid drosodd y flwyddyn wedyn. Felly lan a ni i Borthdinllaen yn 1934 - taith diwrnod cyfan drwy ganolbarth Cymru ac ar hyd yr arfordir, heibio i fannau na wyddwn am eu bodolaeth cyn hynny. Gwersyll ar safle gwych eto, uwchben y môr, a ninnau'n croesi'r maes golff i gyrraedd traeth Tŷ Coch neu slipwe'r bâd achub i ymdrochi.

Roedd Gwersyll Llangrannog wedi newid tipyn erbyn i mi fynd yn ol yno yn 1935 - yn Swyddog bellach ac ar ddyletswydd bob yn ail ddiwrnod. Dydw i ddim yn cofio ai'r ddwy res o gabanau pren ar ben ucha'r cae ynteu'r pebyll newydd gwyn a dau "groen" a llawr pren i bob pabell, a ddaeth gynta. Fe ddaeth rhesi o fasnau ymolchi hefyd, a thap dŵr uwchben pob un - felly roedd pethau'n gwella!

Rwy'n credu mai'r flwyddyn honno y cyrhaeddodd W.C.Elvet Thomas y Gwersyll yng nghwmni Maxwell Evans ac Allan Freedy ar ol bod ar bererindod i Dyddewi, a cherdded i fyny i Langrannog oddi yno - neu hwyrach mai 1933 oedd y flwyddyn honno. Mae gen i lun o'r tri.

Nôl i Borthdinllaen wedyn yn 1936, am y tro olaf. Daeth y Gwersyll yno i ben yn fuan wedyn, a symydwyd rhai o'r adeiladau i Langrannog; trowyd caban bwyd Porthdinllaen yn Gapel ac yn neuadd ymgynnull yn Llangrannog. Roedd chwech ohonom o Ysgol y Bont wedi sefyll arholiadau'r "Higher" y flwyddyn honno, ac yn disgwyl y canlyniadau ar ôl dod adre; cyrraedd gorsaf Pwllheli a gweld poster - "C.W.B. Higher Results Out Tomorrow" - dau ddiwrnod yn gynt na'r disgwyl, cofiwch! Sôn am siwrne ddiflas lawr o Bwllheli, pob un a'i feddwl ar "Western Mail" drannoeth, ond yn ofni son am y peth rhag ofn i'r lleill ei daflu drwy ffenest y trên.

Fe fum i yn Llangrannog deirgwaith wedyn, a'r cyfleusterau yno'n gwella bob tro. Cofio dod oddi yno am y tro olaf ar ddydd Sadwrn, 2 Medi 1939, y diwrnod cyn cyhoeddi'r Rhyfel ar y Sul. Roedd hi'n amlwg ers dyddiau fod perygl o hyn, ac felly, er bod disgwyl i griw newydd gyrraedd y Sadwrn hwnnw, penderfynwyd cau'r Gwersyll. Dau drodd i fyny, y ddau o Abertawe, Caradog Owen a Iolo Thomas os cofiaf yn iawn, ac fe gawson nhw'u siomi o orfod troi yn eu holau a mynd adre.

Ers y Rhyfel gwelwyd mwy a mwy o welliannau yn Llangrannog, ond pa mor hwylus bynnag yw'r trefniadau a'r cyfleusterau yno erbyn hyn, does posib i neb gael mwy o hwyl nag a gawsom ni yn y tridegau, a barnu wrth y llu o atgofion melys sy gen i. Cofio ymdrochi ar draethau Lochtyn a'r Cilborth - yno dysgais i nofio'n iawn dan gyfarwyddyd Brynmor Jones a ddaeth yn Gyfarwyddwr Addysg Morgannwg yn nes ymlaen; cerdded draw i draeth Pen-bryn ger Tresaith a chael chwaraeon a phicnic yno - na, rwy'n dweud celwydd - cherddais i ddim am fy mod ar ddyletswydd y diwrnod hwnnw a chael mynd draw yn y cwch gyda'r bwyd a'r yrn de! Gemau criced ar gae'r Gwersyll, a Dafydd Miles yn bathu geiriau Cymraeg ynhell cyn bod Adran Chwaraeon y BBC wedi meddwl am y peth "trosodd Morwynig" oedd "maiden over" - yr unig un rwy yn ei gofio! Mynd i oedfa nos Sul yng Nghapel y Wig, ac i Gapel Llangrannog yn ein "seaboots" a hithau'n treio bwrw i glywed y Parchedig Rhylip Jones. Yn y gogledd byddai Syr (wedyn) Ifor Williams yn pregethu yng Nghapel Edern ar nos Sul gyntaf Awst bob blwyddyn, a haid o wersyllwyr yn y gynulleidfa. Cofio chwarae rygbi yn erbyn bois pentre Llangrannog - fu erioed "local derby" ffyrnicach yn unman.

Cofio gorfod llyncu moddion arbennig cyn brecwast unwaith yr wythnos - fe allwch ddychmygu i beth! On'd oedd 'na gan wersyll am "ddod o Epsom?"

Nodiadau brysiog yw'r rhain - rhaid cadw f'addewid i Siân Elmyn hyd yn oed os yw'r cof yn pallu bellach a rhai o'r ffeithiau heb fod yn hollol gywir. Maddeued i mi- dydy cyfrolau R.E. ar hanes yr Urdd ddim wrth law gen i, am mod i'n ysgrifennu hwn ar fwrdd llong yn croesi Bae Bisce er mwyn ei bostio o Gibraltar yfory!


Wrth heneiddio bydd dyn yn edrych yn ôl cryn dipyn, a phrofiad melys iawn i mi yw edrych nôl ar Wersylloedd yr Urdd a'r profiad ges i o'u mynychu - diolch, mae'n rhaid cyfadde, i haelioni'r "King George V Jubilee Trust Fund".

Chi blant sy'n mynd i Langrannog eleni, gobeithio'n fawr y cewch chwithau hefyd atgofion melys fel sy gen i.


Os am
DIWNIWR PIANO
Cysyllter â
Hefin Tomos,
16 Llys Teilo Sant
Y Rhath
Caerdydd
Ffôn 484816



DYLID ANFON unrhyw gyfraniadau at Galendr y Dinesydd at: 8, May Street, Y Waun Ddyfal CF2 4EW. Ffon 36583



# Y CROESAIR ~ Ap Lewsyn RHIF 72



## Ar Draws

1. Agoráadau a chaeadau (6)
4. Cast (6)
9. Cynllunio dŵr twym i gell Enid, -- mae'n troi yn fenter aflwyddiannus (4,4,1'1,5)
10. Addysg o Gilwern sy'n peri cyffro (6)
11. A'r gair 'Na' yn hanfodol iddo, eto nid yw yn gwrthod pres (8)
12. Mae elfennau sahur a chas yn medru troi yn sarhaus (8)
14. Mae hi'n gorwedd dan dderwen yn Genesis XXXV, ond e erbyn Barnwyr 1V mae hi'n eistedd ar fainc (6)
15. Taro ergyd heb wneud dim (6)
18. Ffyrdd i esgyn ar hyd-ddynt. (8)
21. Gellir coelio fod y byd Cristnogol yn arwain yr agoriad (8)
22. Byddis yn lledu (6)
24. Nid yw ond 31, ac eto yn hen-ffasiwn (2-2-3-2-6)
25. Byddis yn gwneud rhywbeth o'r gwerni (6)
26. Dreifat yn dod ato'i hun mewn cyflwr blin, er iddo fynd ar goll (6)

## I Lawr

1. Canfod a wnaethom fod swm go lew i'w ddosbarthu, ar ol colli 12½% ohono (7)
2. Byw a marw (5)
3. Aer glan (4,3)
5. Llygad y ffynnon (7)
6. Bas nad yw'n canu (9)
7. Trefnu i'r lle acw weld tipyn o smaldod (7)
8. A gawn ni bapur nosol yn Gymraeg yng Nghaerdydd? (6)
13. Y lle gorau i groesi at Enlli (9)
16. Tyrfau yn bygwth (7)
17. Ar hyn o bryd mae 5000 miliwn yn gwneud hyn a ni (7)
18. Pryd y daw popeth yn olreit, yn ol Idwal (2-1-3)
19. Ai cnwd mwy toreithiog sy'n dilyn torri'r iachad yn ddwy? (7)
20. "------- eich troi chwi ......." (St.Mathew XV111) (7)
23. Hynny o'r gorffennol a ddygwn yn ol (5)

## CROESAIR RHIF 71 - DATRYSIAD

Ar Draws: 1. GWADDOL; 4. CWMPASOG; 10. ANFADWAITH; 11. YMROI; 12. LWYN; 13. SEFYDLEDIG; 15. HODLYFR; 16. DANADL; 19. CRYFHA; 21. PLETHWYD; 23. UNPLYGRWYDD; 25. ADRE; 27. ARLLIW; 28. SWYDDOGAETH; 29. DIDDARBOD; 30. CLYTIO

I Lawr: 1. GLASLANC; 2. ADDFWYNDER; 3. OEDI; 5. WRTH FYND; 6. PRYDLONDEB; 7. SOROD; 8. GWISGO; 9. IACHEIR; 14. RHYDDFRYDWYR; 17. DIWYDIANT; 18. ADWEITHIO; 20. AFROSGO; 21. PRYDYDD; 22. EURAID; 24. PALLODD; 26. COEL

## CYSTADLEUAETH RHIF 71

Derbyniwyd naw ymgais; roedd mân wallau mewn dwy ohonynt, ond y saith arall yn hollol gywir. Yr enw a dynnwyd o'r het oedd eiddo Sylvia Evans o 21, Gelligaer Gardens, Caerdydd, ac iddi hi yr a'r tocyn llyfrau y mis hwn. Y chwech arall a lwyddodd oedd : S.M.T., Pentyrch; Marged Davies, Llandaf; C.D. Cyncoed; Tecwyn Vaughan Jones, Thornhill; B.T. Cyncoed; a T. Hughes, Llanishen.

Cystadleuaeth cyffelyb y mis yma eto. Enw a chyfeiriad ar ymyl y croesair i gyrraedd Ap Lewsyn, 13 Rannoch Drive, Cyncoed, erbyn Mehefin 15fed, os gwelwch yn dda.

---

Yn ystod y mis yma bydd mintai o'r Wladfa ar ymweliad â Chymru. Croeso mawr iddynt i gyd yma ar eu hymweliad cyntaf. Byddant yn treulio tridiau yng Nghaerdydd gan gyfarfod a chyflwyno anrheg i Arglwydd Faer Caerdydd. Cânt groeso dros ginio yn S4C ac ymweld â Sain Ffagan. Diolch yn fawr i'r teuluoedd sydd yn eu lletya am eu parodrwydd i'w croesawu. Sicrheir y caiff pob un gopi o'r Dinesydd cyn iddynt droi am y Gogledd. Cewch eu gweld eto yn Eisteddfod Llangollen ac ym Mhorthmadog. Bydd Côr y Camwy yn cystadlu yn Llangollen. Pob hwyl iddynt.

---

Dymuniadau da i'r Parchedig W.I. Cynwil Williams sy'n mynd am lawdriniaeth i Ysbyty y Waun.

---

Dymunwn adferiad buan i'r Foneddiges Lily Richards sydd wedi bod yn yr ysbyty'n ddiweddar.

---

Croeso cynnes iawn i Gwyn a Gil Roberts (Gil Rawley gynt) a'u plant Tregerin Rhys a Mati Angharad ar eu dychweliad i Gaerdydd. Dymunwn bob hapusrwydd iddynt yn eu cartref newydd yn Yr Eglwysnewydd.

Yn eisiau: Athrawes i Ysgol Feithrin Radur o fis Medi 1987. Am fanylion pellach cysylltwch â: Sheila Davies, ffon 843718, neu Ann Passmore, ffon 842888.

**Hunangyflogedig?**
**Heb Bensiwn?**

Ffôn: Caerdydd (0222) 562816

**LYNN JONES**

30, Highfields,
Llandâf,
Caerdydd, CF5 2QB

**BUDDSODDIADAU**
**YSWIRIANT BYWYD**
**PENSIYNAU**